


# Y DINESYDD


Gorffennaf 2020 — Papur Pobl Caerdydd a'r Fro — Rhif 449







# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Wyn Mears**

***Golygyddion Awst***
***Bryan James***
***Eirian a Gwilym Dafydd***

Cyfraniadau erbyn 27 Gorffennaf i:
bryan.val.james@gmail.com
*neu* eirianagwilym@gmail.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Llenwi Amser

Un peth mae'r hen Coronafirws wedi rhoi i bob un ohonom ni yw amser, i rai pobl gormod o amser. I ddechrau roedd popeth yn iawn i mi achos roedd llawer o lyfrau yn aros am gael ei darllen ond, er mod i'n hoff iawn o ddarllen ni allaf wneud hynny trwy'r dydd. Dw i'n hoffi ysgrifennu ond heb grwydro a siarad â phobl am beth dach chi'n mynd i ysgrifennu? Wedyn ces i syniad - beth am ddechrau cylchlythyr ar gyfer dysgwyr? Roeddwn i wedi gwneud hyn o'r blaen pan o'n i'n diwtor ym Mhowys, cylchlythyr o'r enw Y Wennol. Y syniad oedd cael dysgwyr i ysgrifennu straeon, finnau'n mynd trwyddyn nhw, cywiro a chyhoeddi nhw. Yn ffodus iawn roedd gen i gwmni argraffu ar y pryd. Roedd hyn yn ffordd dda o gadw dysgwyr mewn cysylltiad â'r iaith hyd yn oed ar ôl i'r dosbarthiadau orffen. Dw i'n teimlo bod gormod o ddysgwyr yn mynd ar goll os nad ydyn nhw wedi llwyddo i dorri i mewn i'r gymdeithas Cymraeg cyn diwedd y cyrsiau. Wrth ystyried eu bod nhw wedi dangos diddordeb a chefnogaeth i'r iaith maen nhw'n rhy werthfawr i golli.

Roeddwn i wedi clywed am grŵp o ddysgwyr a oedd yn cyfarfod mewn caffi lleol pob wythnos er mwyn ymarfer eu Cymraeg a rywbryd ym misoedd olaf y flwyddyn ddiwethaf es yna i siarad â nhw, profiad pleserus iawn. Dyma fi wedyn ar ddechrau'r cyfnod cloi efo syniad yn fy mhen am ddechrau cylchlythyr ac angen pobl i gyfrannu. Nes i gysylltu â'r dysgwyr a chael ateb ffafriol. Tynnu at ddiwedd mis Mawrth oedd hyn ac mae'n anhygoel mod i wedi llwyddo i gael y rhifyn cyntaf allan yn ystod wythnos gyntaf mis Ebrill a dw i'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am hynny. Erbyn hyn mae'r pedwerydd wedi dod allan a mwy o gyfranwyr wedi danfon erthyglau.

Ond mae rhaid cael mwy i gyfrannu, mae'n annheg i roi gormod o bwysau ar yr un bobl felly os oes gan rywun stori yn ei ben ac yn ysu am ei gael o flaen y cyhoedd - dyma'ch cyfle.

Mae rhifyn mis Gorffennaf ar gael ar fy ngwefan: www.gydangilydd.cymru yn ogystal â'r rhifynnau cyntaf.

Dw i'n credu bod y cylchlythyr yma yn ffordd dda o gadw dysgwyr tu fewn i ffiniau'r iaith ac mae'n bosib i'r un peth gael ei efelychu mewn gwahanol rannau o Gymru. Nid yw'r Senedd yn gallu sicrhau dyfodol ein hiaith, dim ond ni all wneud hynny trwy ei siarad a'i ddarllen a rhoi pob cyfle i ddysgwyr ddod yn gyfforddus wrth ei siarad.

Mae'n rhaid i ni gefnogi ein dysgwyr lleol!

*Rob Evans*




## Siopau oedd yn gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Cofio saith deg pum mlynedd yn ôl

Oedd cofio 75 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd yn Ewrop a'r Dwyrain Pell wedi mynd â mi yn ôl i pan o'n i'n ddeg oed ac er meddwl a meddwl dim ond dau ddigwyddiad sy wedi aros ar fy nghof am y dathlu adeg honno ar ddiwedd y Rhyfel yn Ewrop ac un ohonyn nhw oedd te parti yn ysgol gynradd Rhiwbeina ble o'n i'n ddisgybl ar y pryd. Cawsom ni jeli coch a blancmange pinc yn y te! Y digwyddiad arall oedd pan aeth fy nhad a mi a'm brawd i'r dre i brofi rhialtwch y dathlu hefo cannoedd o bobl oedd wedi ymgasglu yn Heol y Santes Fair a phan oedd bws yn pasio heibio odd y dorf yn rhuthro ati a churo ochrau'r bws yn eu llawenydd! Yn rhyfedd iawn dwy'n cofio mwy am fod yn blentyn yn ystod y rhyfel nac ar ei diwedd!

Daeth y rhyfel yn Ewrop i ben ym mis Mai a'r rhyfel yn y Dwyrain Pell yn dod i ben ym mis Awst. Erbyn hynny roedd fy rhieni a'm brawd a minnau ar wyliau ym mhentre genedigol fy nhad ym Mhenrhyndeudraeth yn yr hen Sir Feirionnydd ac yn aros ar aelwyd fy nhaid a'm nain. Y noson daeth y newyddion am ddiwedd y Rhyfel yn y Dwyrain Pell roedd fy mrawd a minnau yn ein gwelyau ond cawsom ni ein deffro a'n codi i fynd hefo'r teulu i lawr i sgwâr y pentre' i ganol degau o'r pentrefwyr oedd wedi weindio'n lân. Cafwyd canu emynau a'r emyn a arhosodd ar fy nghof oedd yr emyn "Amanwy" ar y geiriau "melys ydy cywair, ein telynau glân" a bu'r dorf yn morio canu'r emyn.



Achos bod pentre Rhiwbeina ar gyrion Caerdydd ni effeithiwyd cymaint â hynny ar y pentre diolch byth, nid fel canol y ddinas lle achoswyd difrod a marwolaethau wrth i awyrennau o'r Almaen fomio ardal y dociau. Mae sŵn grŵn isel yr awyrennau Almeinig yn hedfan uwchben Rhiwbeina ar eu ffordd i ollwng eu bomiau ar y porthladd yn dal yn fy nghlustiau.

Pan odd y seiren yn seinio i rybuddio pawb am y perygl byddai mam yn deffro fy mrawd a minnau ac yn ein rhoi i eistedd dan fwrdd derw, cadarn yn ein lolfa a dyna ble o'n ni yn eistedd ar glustogau yn darllen comics nes i seiren yr "All Clear" gyhoeddi bod y perygl ar ben ac yna byddwn yn dychwelyd i'n gwelyau!

Odd fy nhad yn un o griw wardeniaid yr ARPs odd yn mynd o gwmpas y pentre liw nos i sicrhau bod pawb yn parchu'r "*black out*" a bod dim llygedyn o olau i'w weld yn unman ac odd bwcedi o dywod a dŵr a *stirrup pumps* ganddyn nhw i geisio ymladd unrhyw dân pe bai bomiau yn syrthio ar y pentre!

Dwy'n cofio un tro i fom gael ei ollwng ar Ganolfan Arddio teulu'r Pugh yn Rhiwbeina a ninnau hogiau'r pentre yn mynd i olwg y difrod. Odd clamp o dwll lle glaniodd y bom ac odd yr holl dai gwydr wedi simsanu ac yn ddiwydr. Rhyfeddwn ni at y fath lanastr.

Mae llawer mwy o atgofion am y rhyfel yn llethu yng nghilfachau'r cof ond bydd sôn am y rheini yn gorfod aros am rŵan gan ei fod yn hen bryd dod â'r erthygl hon i ben!

*Gwilym E Roberts*

## Torri Tir Newydd

Yn wahanol i'r arfer, bydd gyda ni rifyn mis Awst o'r Dinesydd eleni – a hynny, ys dywed y Sais, *'by popular demand'*!

Yn ystod misoedd y cyfyngiadau cymdeithasol mae ein cymunedau wedi gorfod dod o hyd i ddulliau newydd o gyfathrebu a chadw mewn cysylltiad â'u haelodau – ac wedi llwyddo yn rhyfeddol, diolch i'r cyfryngau technolegol cyfoes.

Braf yw cael ymateb mor gefnogol i gyhoeddi'r Dinesydd yn ddigidol. O ganlyniad, penderfynwyd cyhoeddi rhifyn ychwanegol ym mis Awst. Mae'r colofnwyr arferol i gyd wedi cytuno i gyfrannu eu herthyglau – **ac mae croeso i unrhyw un o'n darllenwyr gyfrannu erthygl neu adroddiad neu lun neu sylw neu gyfarchion. Byddem yn falch o glywed wrthoch chi.**

## Copi papur o'r Dinesydd

Rydym yn awyddus i gymaint o bobl â phosib i dderbyn y Dinesydd.

Os ydych chi'n gwybod am rywun sy'n methu oherwydd nad oes e-bost ganddyn nhw, yna rhowch wybod i mi ac fe geisiaf drefnu eu bod yn derbyn copi papur.

Diolch,
*Arthur Evans*
(*Cydlynydd Dosbarthu : manylion gyferbyn)*

# Ryseitiau Merch y Ddinas



## *Cwlíwch lawr!*

**Lowri Haf Cooke**

Gorffennaf gorwych i chi gyd! Wel, Gorffennaf gwahanol, yn sicr. Ble cynt bu cynnwrf dros wylie'r haf a Wimbledon, nawr ceir teimlad parhaol o ansicrwydd. Ac wedi haul di-dor y gwanwyn, cafwyd stormydd, gwynt a glaw, i ategu at yr amwysedd a'r annifyrrwch. Mae'n iawn i deimlo felly, ond peidiwch â gadael i'r dryswch eich gormesu; mae cadw'n brysur yn helpu, ac mae'n gyfnod perffaith i arbrofi yn y gegin.



Wrth i mi sgrifennu, dal mewn grym y mae cyngor Llywodraeth Cymru i lynu at bellter o bum milltir. Does dim gobaith o nofio gwyllt mewn afon neu lyn dinesig, heb sôn am neidio i donnau Môr y Canoldir. Ond yn hytrach na theimlo'n isel, dwi am fynd ar antur fach leol - dros yr haf, dwi'n benderfynol o ddarganfod trysor cuddiedig, sef hafan ddinesig traeth y Sblot! Ac os na chaf i deithio'n eang, gan gynnwys hedfan i unman, dwi am greu seigiau i gael 'dianc' dros dro.

Dwi eisoes yn cael ymweld â 'nhad yn ei ardd ym Mhenylan, gan rannu salad Groegaidd 'DIY'. Does dim byd symlach yn y byd; cyfunwch domatos, ciwcymbr, olewydd a chaws Ffeta, oregano sych ac olew olewydd. Kali Orexi yn wir! Yn yr un modd, mae'r potes Portiwgeaidd neu'r 'caserol' Cataplana wir yn blasu o belydrau'r haul. Sleisiwch nionyn coch a garlleg, pupurau gwyrdd a choch, tsili gwyrdd a llond llaw o goriander. Ychwanegwch ddeilen llawryf *(bay leaf)* a glased o win gwyn, sudd un lemwn a gorgimychiaid. Ffrïwch y cyfan am ugain munud, yna bwytwch â bara a glasied o Vinho Verde! Saùde!

Dyna i chi ddwy saig syml am ddihangfa dros dro, ond ar gyfer y dyddiau hynny pan fo'r haul yn tasgu a chithe' angen oeri, da chi, cymerwch wyliau o'r popty. Blasais y cyntaf - 'Gazpacho' - yn blentyn bach ar wylie yn Llafranc yng Nghatalwnia. Roedd yn sioc fawr i gychwyn i fwyta 'cawl oer', ond does dim i guro gwefr Gazpacho ar ddiwrnod chwilboeth. Yna, wedi i chi sawru'r 'sŵp' o Sbaen, beth am gyfuno gwin rosé o Dde Ffrainc â blas ffrwyth nodweddiadol byd tennis? Mae'r 'Rhosliw Rhewllyd' yn ddiod amheuthun sydd hefyd yn bencampwr o bwdin. Gan ddymuno iechyd da, a *bôn appétit* i chi gyd; dyma seigiau gwych i'w gweini ym mis Gorffennaf.

**Gazpacho**

1kg Tomatos
1 Pupur Coch
1 Pupur Gwyrdd
1 Ciwcymbr
6 Gewin Garlleg
100g Bara
150ml Olew Olewydd
2 Llwy De o Finegr Sheri neu Finegr Gwin Gwyn
Halen a Phupur

Yn gyntaf, torrwch y bara yn ddarnau a'i socian mewn dŵr oer mewn powlen. Yna torrwch y tomatos, pupurau, ciwcymbr a'r garlleg yn fân, cyn eu gosod mewn powlen mwy o faint, ac arllwyswch yr olew olewydd dros y gymysgedd. Yna, ychwanegwch yr olew a'r bara gwlyb, a chymysgwch y cyfan â chymysgydd am hyd at funud. Ychwanegwch y finegr, a halen a phupur, at eich dant. Gosodwch y cawl yn yr oergell am awr cyn gweini, gyda bara, ac olew olewydd.

**Rhosliw Rhewllyd**

Potel o Win Rhosliw
300g o Fefus wedi eu torri
50g o Siwgr
Sudd 1 Lemwn

Yn gyntaf, estynnwch ddysgl a thywalltwch gynnwys y botel o win rhosliw iddo. Gosodwch y ddysgl yn y rhewgell dros nos (neu am o leiaf 6 awr).

Torrwch y mefus, a gwaredwch y deiliach, a'u gosod mewn powlen. Taenwch y siwgr drostynt, a'u gadael am rai oriau tan fydd y siwgr wedi troi'n sudd pinc melys.

Tynnwch y gwin rhosliw allan o'r oergell a defnyddiwch lwy bren i dorri'r rhosliw rhewllyd. Tywalltwch y darnau rhew rhosliw i bowlen fawr, cyn ychwanegu'r mefus a'r sudd lemwn. Cymysgwch y cyfan â chymysgydd am hanner munud tan fydd y cyfan yn slwtsh lliw cochbinc. Arllwyswch y Rhosliw Rhewllyd i'ch hoff wydrau gwin neu goctel, a gosodwch fefusen ffres ar wefus pob gwydr - neu mwynhewch ar eich pen eich hun!

# Pobol y Rhigwm

Y dasg i'r rhigymwyr y tro diwetha' oedd llunio pennill, limrig neu gerdd o unrhyw fath ar y testun 'Zoom'. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond dyma gyhoeddi'r tri gorau'n unig. Limrigau, fel mae'n digwydd, sydd gan y tri.

Nid ydwyf yn deall y Zoom,
'Sdim lle i ni gyd mewn un rŵm;
Rwyf wedi mygydu
A hunan ynysu
Felly cadwch eich pellter bŵm bŵm!

*Neanderthal*

I chi sy'n wir photogenig
Mae'r Zoom yn declyn arbennig,
Ond ni fyddaf fy hun
Yn ymuno, rwy'n flin,
Ar sgrin 'rwy'n salw drybeilig.

*Y paun balch*

O cariad! Mae'r Zoom ar fin dechrau
A diolch am gefndir y llyfrau.
Clasuron arobryn
Ar silff dan y Kyffin;
Crys melfed neu sidan sydd orau?

*Un o grach y Brifddinas*

Mae'r tri chynnig yn ddoniol yn ei ffordd ei hun. Mae'r odl yn ddigon i beri chwerthin yng nghynnig Neanderthal, er tybed a redodd allan o odlau defnyddiol yn y llinell glo? Dyna oedd un o ddywediadau Basil Brush mewn oes bell yn ôl wrth gwrs. Rhaid cydymdeimlo â'r Paun Balch, yn teimlo'n annigonol ar y sgrin ac felly'n methu ymuno â'r sgwrs rithiol. Da iawn am ddefnyddio'r odl gyrch i gryfhau'r gic yn y llinell glo. Deifiol yw'r gair i ddisgrifio limrig Un o grach y Brifddinas. Yn aml mae gwleidyddion ac eraill yn gosod y silff lyfrau'n ofalus yn y cefndir i greu'r ddelwedd briodol, ac mae'r llinellau 'Clasuron arobryn / Ar silff dan y Kyffin' yn swnio fel rhywbeth o enau Rhisi neu Glenys gynt - doniol a chrafog ar yr un gwynt.

Gwobrwyer Un o grach y Brifddinas, felly, a diolch i'r tri am gystadlu.

## Tasg 34

Y dasg nesaf i'r rhigymwyr (tasg 34) yw llunio pennill, englyn neu gerdd o unrhyw fath i George Floyd.

Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at bryan.val.james@gmail.com erbyn 20 Gorffennaf 2020.

*Emyr Davies*

**Enillydd tasg rhif 33 yw**

**Peter Griffiths, Pentyrch**

# Peidiwch â mynd o flaen Covid-19

*I fy ffrind JP sydd yn nyrs yn Uned Gofal Dwys Ysbyty'r Waun ac yn fam anhygoel i ddwy ferch o dan 4.*

Mae'r cyfyngiadau symud
Ein bywydau wedi'u newid
Heb os nac oni bai
Feirws erchyll sydd ar fai!

Effeithio ar y blaned i gyd
I frechlyn rhaid i ni ddod o hyd.
Un peth diddorol; sylweddoloch??
Neb yn sôn am Brexit pellach!

Diolch byth mae gyda ni'r GIG
Mae e wedi dod i'r brig:
Ohono fe, mae'r byd yn genfigennus
Yn enwedig i helpu pobl anghenus.

Cysyniad Cymro ffein o Dredegar
Tu hwnt ffodus ydym am ei olwg eiddgar,
Yn afraid ddweud roedd yn ddyn glodwiw
Basai fe'n falch o'r gwasanaeth heddiw.

Y GIG, ein harwyr, sy'n achub y dydd
Gwaith andros o galed ond cadwch y ffydd:
Pob ymdrech yr ydym yn gwerthfawrogi
Gyda churo dwylo ac enfysau mewn ffenestri.
Meddygon a nyrsys a gweithwyr hanfodol
Yn arbennig gyda phrinder offer amddiffynol

Cofiwn am byth, yn y dyfodol,
Eich ymateb i'r cyfnod mor anarferol.
Un peth sy'n amlwg; eich bod
Chi i gyd yn haeddu clod.

Wnewch chi fod yn ystyriol a meddylgar?
Bydd holl bobl y byd yn siŵr yn ddiolchgar,
Dyma sut bydd e am gyfnod estynedig,
Dangoswn ein hochrau gorau wrth fod yn garedig.

Cadwch eich pellter ac aros gartre,
Golchwch eich dwylo'n gyson a thrylwyr,
Peidiwch â mynd mas os nad oes wir rhaid,
Gallech ddal neu ledu Covid yn ddi-baid!

Yma yng Nghymru
Eithaf call ydyn ni
Heb ymgynnull ar y traeth
Nac yn mharciau cenedlaethol chwaith!

Dros y ffin mae stori wahanol -
Pobl twp ag ymddygiad uffernol
Wrth dorri'r rheolau, y bont maen nhw'n croesi;
Dewch nôl yn y dyfodol – wedyn bydd croeso!

Ble mae'n bwletinau newyddion ni?
Wedi'u cwtogi gan y BBC!
Unwaith 'to mae Cymry'n cael eu hanwybyddu,
Sdim syndod o gwbl bod twf yn YesCymru!

Ym mhob cwr o Gymru o Ddinbych i Dreforys:
*Gwrandewch ar Mr Drakeford a nid ar Boris!*

***Rwth Treganna***

# Cwmni'r Dysgwyr

*"bachwch ar bob cyfle i ymuno mewn clonc Cymraeg ar Zoom"*



## Gwilym Dafydd

**Dim gair am *blancmange*!**



Ambell waith mae dysgwyr yn wynebu agwedd negyddol gan y Cymry di-Gymraeg sy ddim eisiau dysgu *iaith y nefoedd.* Dydy pobl o'r fath ddim yn gwneud ymdrech o gwbl i ddysgu Cymraeg ac yn gweld dysgwyr fel bygythiad, pobl sy'n pigo eu cydwybod. Felly maen nhw'n ymosod ar ddysgwyr brwd – ar lafar wrth gwrs! Mae un o'm myfyrwyr wedi dweud y stori ganlynol wrtho i rai blynyddoedd yn ôl. Digwyddodd mewn tafarn yn Nhreganna – yn Saesneg!

Ffrind y myfyriwr: "Pam wyt ti'n siarad yr iaith ddiwerth 'na?"
Myfyriwr: "Dw i'n mwynhau siarad Cymraeg."
Ffrind y myfyriwr: "Wel, Dw i'n meddwl taw iaith ddiwerth yw hi."
Myfyriwr: "Pam wyt ti'n dweud hynny?"
Ffrind y myfyriwr: "Does dim geiriau am lawer o bethau yn Gymraeg?"
Myfyriwr: "Rho enghraifft i mi."
Saib hir
Ffrind y myfyriwr: "Blancmange. Does dim gair am blancmange yn Gymraeg."

Roedd y sylw twp hwn yn fy atgoffa fi o gamgymeriad honedig y Cyn-arlywydd George W Bush – "Does dim gair am entrepreneur gyda'r Ffrancwyr!" Beth bynnag mae gan Gymraeg ei geiriau ei hun am dermau mae rhai o'r ieithoedd ar y cyfandir yn benthyg o'r Saesneg ee *cyfrifiadur.*
A beth sy'n bod ar y gair hyfryd – blamonj?!!!
Ac un peth arall does dim gair am 'corgi' gan y Saeson.

*Lynda Pritchard Newcombe*

**Amser Jôc gyda Huw James**
**Dameg y Samariad Trugarog – Fersiwn Cyfoes**

Roedd hi'n noson dywyll ac oer. Roedd dyn yn gorwedd yn y gwter – anymwybodol, gwaedlyd.

Ddaeth rhywun heibio – cyfreithiwr. Wnaeth e ddim byd, achos does dim ganddo gymorth cyfreithiol.

Un arall – rheolwr banc. Wnaeth e ddim byd achos roedd angen arno gael caniatâd pencadlys rhanbarthol i neud unrhyw beth.

Un arall – gweinidog. Wnaeth e ddim achos roedd y dioddefwr yn aelod o enwad gwahanol.

Wedyn, ymhen amser, daeth gweithiwr cymdeithasol – ein Samariad. Edrychodd yn dosturiol ar y dyn a dweud:

Pwy bynnag wnaeth hynny – mae angen cymorth arno.

**Mwynhau Byd Natur**

Ydych chi'n mwynhau mynd allan am dro? Heb law eich bod yn hunanynysu yn ystod cyfnod Corona, mae'n debyg bod nifer ohonom wedi manteisio ar sawl cyfle dyddiol. Rydw i wedi gwneud ymdrech i ddysgu enwau mwy o goed ac mae Eirian wedi canolbwyntio ar enwau planhigion a blodau gwyllt. Pa ryfedd bod Eirian yn hoffi'r enw tegeirian! Mae hi wedi sylwi arnynt yn y cyfnod diweddar yn ardal Yr Eglwys Newydd.

Fasech chi'n nabod y planhigyn tegeirian? *'Orchid'* yn Saesneg. Dywed Geiriadur Gomer ei fod yn 'un o deulu o blanhigion sy'n aml â blodau lliwgar ar ffurf anghyffredin; blodyn un o'r planhigion hyn.' Rhyw liw porffor neu biws os cofiaf yn gywir.

Rydw i eisoes wedi addo ar Trydar y baswn i yn rhoi plwg bach i raglen natur arbennig Natur a Ni, @NaturaNiS4C pob nos Wener, dechrau am 8.25 o'r gloch. Dechreuodd y gyfres ar 5 Mehefin. Mae'r prin hanner awr yn gwibio heibio mor gyflym.

Un o eitemau'r arlwy yw bod yr adarwr a'r darlledwr Daniel Jenkins Jones yn cyflwyno gwers fach gerddorol, sut mae adnabod cân aderyn ac yn cynnig ambell i glyw. Yn ystod mis Mehefin y pedwar aderyn dan sylw oedd ji-binc, llwyd y berth neu lwyd y gwrych, dryw bach a'r durtur dorchog. Yn ystod cyfnod gofidus Corona mae'n sicr bod rhaglenni natur a byd natur wedi bod o gymorth i gynnal iechyd corfforol a meddyliol nifer ohonom.

**Ci enwog Y Dinesydd**

Sylwoch chi ar lun ci enwocaf y Dinesydd ar glawr rhifyn Mehefin? Does dim angen cyflwyno Mali - yno am y trydydd tro. Tri chynnig i Gymro neu Gymraes. Beth ddywedodd hi wedi gwisgo ei sbectol haul ond 'dwi eisiau diod oer?' Mae'n debyg bod merched Sheridan Morgan o'r Brifysgol wrth eu bodd pan fo Mali yn cael sylw. Mae Cymraeg Mali yn gwella hefyd! Oes anifeiliaid anwes gyda chi? Beth am gathod? Os bydd rhifyn mis Awst anfonwch lun ymlaen i eirianagwilym@gmail.com

Mae nifer ohonom am ddiolch i Sheridan gan taw fe sy'n ein gwahodd i Clonc Zoom Jams Hywel pob amser cinio dydd Llun a Gwener. Rydym yn gyson yn cael 15 neu 16 yn dod ynghyd. Mae Sheridan hefyd yn trefnu Clonc Zoom y Brifysgol amser cinio dydd Mercher. Ail-agorodd nifer o siopau ar ddydd Llun, 22 Mehefin. Tybed a oedd Jams Hywel yn un ohonynt?

# Actorion Arad Goch yn dod â llyfrau Tir na n-Og yn fyw

Mae Cyngor Llyfrau Cymru a Chwmni Theatr Arad Goch wedi dod at ei gilydd i gynhyrchu darlleniadau o'r llyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc ar restr fer Gwobrau Tir na n-Og 2020.

Yn sgil gohirio pob cynhyrchiad theatrig yn ystod cyfnod clo'r coronafeirws, mae actorion Arad Goch yn Aberystwyth wedi bod yn perfformio ac yn recordio'u lleisiau dros y we.

Gyda phawb yn cyfrannu o'u cartrefi a Jeremy Turner yn cyfarwyddo o bell, mae'r actorion wedi bod yn darllen detholiadau o'r chwe llyfr Cymraeg a gyrhaeddodd y brig yng ngwobrau llenyddiaeth plant a phobl ifanc Tir na n-Og eleni – tri yn y categori ar gyfer plant oedran cynradd a thri yn y categori uwchradd.

Mae'r darlleniadau a recordiwyd ar Zoom ar gael yn rhad ac am ddim o ddydd Llun 29 Mehefin 2020 ar sianel #carudarllen y Cyngor Llyfrau ar blatfform amam.cymru yn ogystal ag ar Hwb, gwefan dysgu digidol Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Helen Jones, Pennaeth Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen Cyngor Llyfrau Cymru: "Mae ansawdd llyfrau Tir na n-Og wedi bod yn arbennig o uchel unwaith eto eleni ac mae rhannu'r gwaith creadigol yma gyda phlant a phobl ifanc yn hollbwysig. Mewn cyfnod pan fo'r llyfrgelloedd a'r ysgolion ynghau, rydyn ni'n hynod ddiolchgar i Arad Goch am weithio gyda ni i greu cynnwys Cymraeg gwreiddiol ac unigryw sydd ar gael yn ddigidol ac yn rhad ac am ddim. Ein gobaith yw y bydd y darlleniadau yma'n adnodd gwerthfawr i ysgolion a rhieni yn y cyfnod hwn a thu hwnt, ac yn dod â mwynhad i blant a phobl ifanc ar draws Cymru. Hoffem ddiolch i Arad Goch, i'r cyhoeddwyr Atebol a'r Lolfa, ac i'r awduron am eu cefnogaeth frwd."




*Twm Sion Cati*

Dywedodd Jeremy Turner, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Theatr Arad Goch: "Mae gan Gwmni Theatr Arad Goch hanes hir a llwyddiannus o weithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu gyda sefydliadau yng Nghymru a thramor, gan gynnwys y Cyngor Llyfrau sawl gwaith yn y gorffennol. Yn ogystal, rydyn ni wedi creu cynyrchiadau theatraidd o sawl stori a llyfr. Rydyn ni felly wedi bod yn falch iawn o'r cyfle i gydweithio â'r Cyngor Llyfrau unwaith eto yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn i greu recordiadau o'r llyfrau gwych sydd wedi cael eu henwebu ar gyfer y gwobrau eleni. Fe fwynheais i ddarllen pob un ohonyn nhw a hoffwn ddiolch i'n hactorion, ein technegwyr a'n golygydd am eu gwaith. Diolch hefyd i Gyngor y Celfyddydau am ei gefnogaeth yn ystod y cyfnod ansicr hwn."

Ymhlith y darllenwyr mae'r actorion Ffion Wyn Bowen, Lynwen Haf Roberts, Gruffydd Evans ac Ioan Gwyn, gydag Eugene Capper yn dechnegydd sain a Carwyn Blayney yn gyfrifol am y gwaith golygu.

Bydd enwau enillwyr Cymraeg Gwobrau Tir na n-Og 2020 yn cael eu cyhoeddi ar raglen *Heno* ar S4C am 6.30yh nos Wener, 10 Gorffennaf, gydag enillydd y categori Saesneg yn cael ei gyhoeddi ar raglen y *Radio Wales Arts Show* nos Wener, 3 Gorffennaf 2020.



***Jeremy yn cyfarwyddo dros Zoom***

## Rhoddion

Mae pwyllgor y Dinesydd yn dymuno diolch yn fawr i Gymrodorion Caerdydd a Merched y Wawr Bro Radur am eu rhoddion sylweddol i'r Dinesydd ym mis Mehefin.

Diolchwn hefyd i'r unigolion sydd wedi cyfrannu rhoddion yn ddiweddar.

Mae hyn oll o gymorth i ni ddal i gyhoeddi'r Dinesydd yn y cyfnod rhyfedd yma o gyfyngiadau cymdeithasol, gan hyderu ei fod yn gyfrwng i 'gadw mewn cysylltiad' a rhoi rhywfaint o ddifyrrwch mewn amser digon diflas.

Cadwch yn ddiogel.

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**IOLO'R TWYLLWR A'R BARDD MAWR RHAMANTAIDD**

Roedd Iolo Morganwg yn enghraifft o gamp a rhemp, os bu un erioed. Mae'n hynod addas mewn gwirionedd mai ef a fathodd y gair 'unigryw', oherwydd yr oedd ar ei ben ei hun mewn llawer ffordd.

Edward Williams oedd ei enw bedydd, ac fel yr awgryma ei enw barddol, un o Forgannwg oedd Iolo, ac o Fro Morgannwg yn benodol; yno y ganed ef, ym mhlwyf Llancarfan yn 1747, ac yno y bu farw, ym mhlwyf cyfagos Trefflemin yn 1826. Ond er iddo gadw ei gartref yn y Fro ar hyd ei fywyd, fe grwydrai'n helaeth ar hyd a lled Cymru a de Lloegr, gan dreulio cyfnodau estynedig yn Llundain, er enghraifft, heb sôn am ei ymweliadau â'i gyfeillion radicalaidd yn nhref ddiwydiannol fyrlymus Merthyr Tudful, lle y bu ei fab, Taliesin, yn cadw ysgol o 1816 ymlaen. Ond os crwydrai'n eang yn gorfforol, fe grwydrai'n ehangach fyth ym myd y meddwl a'r dychymyg, gan ymhyfrydu mewn 'codi cestyll yn yr awyr' (chwedl ei wraig, a adawyd yn aml mewn amgylchiadau truenus).



Saer maen oedd Iolo wrth ei alwedigaeth, fel ei dad a'i frodyr, ac mae enghreifftiau o'i waith crefftus i'w gweld yn y Fro hyd heddiw. Ni chafodd unrhyw addysg ffurfiol. Honnodd iddo ddysgu'r wyddor pan oedd tua phedair blwydd oed, wrth wylio ei dad yn torri llythrennau ar gerrig beddau. Ond llwyddodd i ymdrwytho mewn rhychwant rhyfeddol o feysydd, gan gynnwys nid yn unig hanes a hynafiaethau, barddoniaeth a beirniadaeth lenyddol, ond pynciau mor amrywiol â mathemateg, botaneg, pensaernïaeth, amaethyddiaeth, daeareg, cerddoriaeth a garddwriaeth, gan ychwanegu hefyd Ladin a Ffrangeg at ei Saesneg a'i Gymraeg. Mewn gair yr oedd Iolo yn athrylith. Ond fel y dywedodd yr Athro Bobi Jones un tro, yr oedd Iolo hefyd yn 'athrylith o ffugiwr […] a'i twyllodd ei hun i raddau' (gweler http://www.rmjones-bobijones.net/llyfrau/Iolo.pdf).

Fel sy'n ddigon hysbys erbyn hyn, dan ddylanwad ei gariad angerddol at ei sir enedigol, heb sôn am ddylanwad lodnwm, fe ailgreodd Iolo hanes Cymru a'i llenyddiaeth gan osod Morgannwg yn berl gwychaf oll yng nghoron ein hanes a'n llên. Yn wir, aeth John Morris-Jones mor bell â dweud, 'Un amcan mawr oedd iddo drwy'i fywyd: dyrchafu Morganwg a darostwng Gwynedd'! Ac er i nifer hyd yn oed yn ei ddydd ef ei hun amau rhai, o leiaf, o'i honiadau, oherwydd gwybodaeth ddihafal Iolo am gynnwys y llawysgrifau hynafol a oedd, cyn dyddiau'n Llyfrgell Genedlaethol, ar wasgar ar hyd a lled y wlad, ac oherwydd ei allu fel ffugiwr ac fel bardd, yr oedd yn ganrif a rhagor ar ôl marw Iolo cyn i academyddion lwyddo i ddangos cymaint o ffugiwr ydoedd.

Y ffigur allweddol yn hynny o beth oedd un o ysgolheigion mwyaf y Gymraeg, yr Athro Griffith John Williams (1892–1963) o Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd (fel y'i gelwir bellach), a dreuliodd ei yrfa gyfan yn ceisio didoli gwir hanes Cymru, a gwir draddodiad llenyddol Morgannwg yn arbennig, oddi wrth ffugiadau Iolo. Trwy waith ditectif G. J. Williams, yn bennaf, mae prif rediad ffugiadau Iolo yn glir bellach; ond am fod ei ffugiadau mor gywrain, am fod hedyn o wir yn aml iawn yng nghanol y tyfiant gau, ac am fod Iolo (yng ngeiriau cofiadwy yr Athro Gwyn Thomas) 'fel octopws mawr yn chwistrellu inc i eglurder y dyfroedd', y canlyniad yw y bydd nithio'r gwir oddi wrth y gau yn orchwyl parhaus tra bydd astudio ar ein hanes a'n llên yn achos y mannau niferus hynny lle y rhoddodd Iolo ei fys yn y brywes.

Mae cryn sôn y dyddiau hyn am hanes ac arwyr, ac am yr angen i adlunio ein hanes ac i ailgloriannu ein horiel o arwyr er mwyn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n byd-olwg cyfoes. Mae'n bwnc o'r pwys mwyaf (fel y ceisiais ddadlau yn y gyfrol *Glyndŵr a Gobaith y Genedl*), oherwydd y mae cynnal 'cof cenedl' – llunio ac adrodd ein 'stori' o'r newydd ym mhob cenhedlaeth, a hynny yn y ffordd ac o'r ongl y byddem am i'n pobl ni ein hunain ac eraill ei chlywed – yn hanfodol i hunaniaeth a pharhad unrhyw genedl a chymuned. Dyna y ceisiodd Iolo ei wneud yn ei ddydd ef, wrth gwrs – er mewn ffordd fwy 'creadigol' na'r cyffredin! Ac fel Owain Glyndŵr o'i flaen, y mae Iolo'n enghraifft nodedig o'r ffordd y gall portreadu rhywun newid yn fawr iawn o gyfnod i gyfnod.

Yn ei ddydd ei hun ac am flynyddoedd wedyn, dyn digon ecsentrig a checrus oedd Iolo yng ngolwg llawer. Yna, wedi datgelu ei ffugiadau, bu dan gabl yn

gyffredinol am lawer blwyddyn, a chael ei labelu'n dwyllwr. Ond ers rhai blynyddoedd bellach, aeth Iolo'n eilun i nifer cynyddol, a rhai'n cyfeirio ato fel 'arwr ar gyfer ein hoes ni' oherwydd ei radicaliaeth a'i heddychiaeth. Mae'n arwyddocaol, er enghraifft, yn y condemnio (cyfiawn) diweddar ar Thomas Picton a'i driniaeth greulon o gaethweision yn y Caribî, fod sawl un wedi argymell mai cerflun o Iolo, 'Bardd Rhyddid', a ddylai gael ei osod yn lle'r cerflun o Picton yn Neuadd y Ddinas ym Mharc Cathays.

Fel popeth yn achos Iolo, nid yw'r awgrym hwnnw heb ei broblemau, oherwydd nid yw hanes ymwneud Iolo â chaethwasiaeth yn un syml. Mae anghysonderau a chymhlethdodau yn nodweddu pob un ohonom, wrth gwrs, ond yr oedd hynny'n wir am Iolo i fesur anghyffredin. Ef, wedi'r cyfan, yw'r gweriniaethwr pybyr a alwodd ei hun yn 'his most humble servant, Edward Williams' wrth gyflwyno ei gyfrol o gerddi Saesneg 'to his royal highness George Prince of Wales', ac ef yw'r heddychwr mawr a ganodd gân Saesneg i'r 'Glamorgan Volunteers' a anogai godi cledd miniog yn erbyn unrhyw elyn a feiddiai osod ei droed ar fodfedd o'n harfordir. Nid rhyfedd i Ambrose Bebb ddweud am Iolo, ei fod yn ymddangos 'mor anwadal â cheiliog rhedyn'.

Ymhlith y rhai a danysgrifiodd i gyfrol Iolo, *Poems, Lyric and Pastoral,* yn 1794 yr oedd ei dri brawd, a oedd erbyn hynny wedi ymfudo i Jamaica. Aethant yn gyfoethog yno, ac yr oeddynt ganddynt lawer o gaethweision. Roedd Iolo yn daer iawn ei gondemniad o gaethwasiaeth; ond er iddo fynnu na dderbyniai'r un geiniog gan ei frodyr am mai 'gwerth gwaed' oedd eu cyfoeth, y gwir yw iddo nid yn unig dderbyn arian o ewyllys un o'i frodyr, ond iddo fynd i'r gyfraith er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr etifeddiaeth honno.

Wrth fynd heibio, mae'n werth ychwanegu mai ymgeisydd cryfach o dipyn na Iolo i gael cerflun ohono wedi ei osod yn lle un Thomas Picton yn Neuadd y Ddinas fyddai radical arall o ddwyrain Morgannwg, sef Morgan John Rhys (1760–1804) o Lanbradach. Gwnaeth lawer iawn mwy, yn ymarferol, na Iolo i danio'r ymgyrch a gododd yng Nghymru erbyn yr 1790au i ddileu'r gaethfasnach. (Am ragor o fanylion, gweler f'erthygl arno yn y gyfrol *Canu Caeth*, gol. Daniel G. Williams.)

Perygl pob dyrchafu ar 'arwr' yw hawlio gormod; a dyna yn sicr sy'n wir am yr hyrwyddo diweddar ar Iolo fel 'arwr ar gyfer ein hoes ni'. Trwy ei ffugiadau – ac yn arbennig, efallai, trwy'r greadigaeth ryfeddol honno, 'Gorsedd Beirdd Ynys Prydain' – bu ei ddylanwad yn drwm ar ein dychymyg cenedlaethol. Ond er pwysiced ei ddylanwad yn achos canfyddiad pobl o'n hiaith a'n llên a'n hanes yn ystod y 19eg ganrif, pur ddiddylanwad fu Iolo fel arall yn ystod y ganrif honno. Yn achos twf radicaliaeth, er enghraifft, gallai R. T. Jenkins – a fu'n athro yn Ysgol Uwchradd Caerdydd rhwng 1917 ac 1930 cyn cael ei benodi'n ddarlithydd yn Adran Hanes Cymru yn y Brifysgol ym Mangor – ddweud mai 'diddorol yn hytrach na phwysig ydyw Iolo ym myd gwleidyddiaeth', gan ddadlau mai'r 'digwyddiad mawr yn hanes gwleidyddiaeth Cymru' oedd radicaleiddio'r Methodistiaid.

Ond yr hyn sydd wedi fy synnu fwyaf yn yr hyrwyddo diweddar ar Iolo fel arwr yw'r diffyg sylw cymharol iddo fel bardd Cymraeg, oherwydd yr oedd Iolo yn fardd mawr – yn fardd rhamantaidd o'r radd flaenaf, yn wir. Gellid dadlau mai dyna ei gyfraniad gwychaf a mwyaf arhosol, ac at hynny y dychwelwn y tro nesaf, os byw ac iach.

---

## Dihuno'r Adar Gleision

Mae Caerdydd newydd guro Leeds o ddwy gôl i ddim a Preston gan dair gôl i un ac felly rydym yn y chweched safle am y tro cyntaf eleni. I'r rhai sydd ddim yn talu lot o sylw i bêl-droed mae lle gyda ni yn y gemau ail gyfle, cyfle i ddychwelyd i'r Uwch Gynghrair. Mae Leeds ar ben y tabl ac mae Preston nawr yn seithfed felly rydym wedi curo dau o'r timau gorau yn y Bencampwriaeth.



Sut mae hyn wedi digwydd? Wel, roedd Lee Tomlin wedi gwneud yn dda ac wedyn anafu ei hunan. Roedd Nathienal Mendez-Laing wedi anafu ei hunan hefyd a'r ddau allan am weddill y flwyddyn ond oherwydd y pandemig doedd dim modd chwarae. Nawr, maen nhw yn ffit. Yn rhyfedd iawn hefyd mae Mendez-Laing yn gallu chwarae yn dda iawn adeg yma'r flwyddyn. Paid gofyn i fi, dechrau tymor yn dda a gorffen yn dda mae fe pob tro felly mae chwarae yn yr haf yn wych iddo fe. Mae fe'n edrych yn hyderus iawn hefyd. Does dim ond saith gêm i fynd felly ar ôl blwyddyn o dangyflawni mae cael llwyddiant anferthol yn bosib.

Nawr, dwi wedi gwneud hi! Unwaith dych chi'n breuddwydio bod llwyddiant yn bosib dych chi'n gallu bod yn siŵr bod pethau yn mynd o chwith. Colli i Charlton a Dinas Bryste a gweld Abertawe yn cymryd ein lle ni gyda phum gêm i fynd. Dwi'n sylwi bo fi wedi dweud "ni" sawl gwaith. Ni ydym ni pan dyn ni'n ennill ond nhw fyddan nhw pan maen nhw'n colli. Gad i ni obeithio fod Neil Harris, ein rheolwr eithaf newydd yn gwybod beth mae fe'n gwneud. Lle'r oedd Warnock wedi cael Ken Zohore i sgorio mae'n bosib bod Harris yn llwyddo i gael Robert Glatzel i sgorio. A lle mae goliau mae gobaith.

*Steffan Webb*

# Tafwyl Digidol 2020



Mae'n amser anodd a gwahanol iawn i ni gyd, ac rydym yn awyddus i ddal ati i chwarae ein rhan wrth geisio cefnogi a chynnal ysbryd ein cymunedau.

Gyda'r siom o orfod canslo Tafwyl a Gŵyl Fach y Fro eleni - roedd yn bleser cael ffrydio cerddoriaeth yn fyw o Gastell Caerdydd brynhawn dydd Sadwrn 20fed o Fehefin a dod a Tafwyl mewn partneriaeth gyda Gŵyl Fach y Fro i mewn i gartrefi ar hyd a lled Cymru ac yn genedlaethol.

Dyma'r digwyddiad cyntaf ym Mhrydain ers cyflwyno cyfyngiadau iechyd a diogelwch COVID-19 i gynnig llwyfan i artistiaid chwarae'n fyw yn y lleoliad lle cynhaliwyd yr ŵyl ddiwethaf. Rydym yn hynod falch yr ymunodd dros 10,000 i fwynhau gwledd o gerddoriaeth yn cynnwys Hana, Adwaith, Mei Gwynedd, Casi ac Al Lewis a'r cyfan yn cael ei gyflwyno'n hyfryd gan Huw Stephens a Tara Bethan.



Rhaid oedd cofleidio technoleg wrth gydweithio gyda phartneriaid profiadol yn y meysydd cynhyrchu, darlledu a ffrydio digidol er mwyn sicrhau fod popeth yn ei le i wireddu'r dyhead o ddarparu Tafwyl yn y tŷ, yn yr ardd neu le bynnag roedd ein cynulleidfa'n mwynhau'r ŵyl!

Roedd yr amserlen yn llawn dop, a rhywbeth at ddant pawb, ac fel Tafwyl arferol, roedd arlwy eang o sgyrsiau, sesiynau llenyddol, gweithdai ac adloniant i blant a phobl ifanc, marchnad ddigidol yn ogystal â chip olwg ar dalentau disgyblion ysgolion yr ardal.

Ymhlith yr uchafbwyntiau, yn ardal y Llais, oedd sgwrs rhwng Jon Gower a'i ferch Onwy, awdures Llyfr Adar Mawr y Plant, Lowri Morgan yr athletwr wltra yn sgwrsio gyda Beti George, Stomp y Ganrif yn dathlu canmlwyddiant Prifysgol Abertawe, darlith Dr Dylan Foster Evans yn trafod cyfoeth enwau Cymraeg ein strydoedd, trafodaeth amserol ar Gymreictod wedi ei ysbrydoli gan The Privilege Café, heb anghofio Ian Gwyn Hughes yn holi pêldroedwyr carfan Cymru. Roedd hefyd nifer o sesiynau plant ar gael yn yr ardal Bwrlwm, gan gynnwys gweithdy crefft, sesiwn ioga, dawns a drama yn ogystal â sesiwn byw gyda Cyw a llwyth o weithgareddau amrywiol eraill.

Mae'r rhain oll a llawer mwy ar gael ar blatfform AM (platfform ar-lein sy'n rhannu a dathlu creadigrwydd Cymru), felly sicrhewch eich bod yn cael cyfle i'w mwynhau drwy ymweld â gwefan Tafwyl www.tafwyl.cymru

Mae Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn cynllunio amrywiaeth o sesiynau newydd a chyffrous dros yr wythnosau nesaf i blant ac oedolion fel ei gilydd. Tanysgrifiwch i'n e@chlysur neu dilynwch ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i glywed y newyddion diweddaraf.

*Manon Rees-O'Brien Prif Weithdredwr*
*Menter Caerdydd & Menter Bro Morgannwg*

Dolenni ein cyfryngau cymdeithasol:
Menter Caerdydd & Menter Bro Morgannwg
Insta- @menter_bro_morgnnwg | @mentercaerdydd
Facebook- @MIBroMorgannwg | @m.caerdydd
Twitter- @MIBroMorgannwg | @mentercaerdydd



## Owain Fôn Williams

Yn sgwrsio o'i gartre yn Glasgow bu Owain yn edrych yn nôl ar Ewro 16. Hyd yn oed heddiw does dim diwrnod yn mynd heibio heb iddo feddwl am y profiad "sbesial ofnadwy" o fod yno, a'r cyfnod mwya' hapus o'i fywyd.

Yn ôl Owain llwyddodd pêl-droed yng Nghymru i ddod â phawb at ei gilydd, a 'roedd ganddo atgofion byw o'r croeso a gafwyd y tu allan i Gastell Caerdydd wedi i'r garfan ddychwelyd o'r bencampwriaeth.

Datblygodd y tîm yn arbennig yn sgil colli Gary Speed, a thalodd Owain deyrnged i'r gwaith a gyflawnodd Chris Coleman ac Osian Roberts, wrth dalu cymaint o sylw at fanylion gemau. Rhoddwyd sylfeini yn eu lle wrth fynnu bod y sgwad yn taro pob targed a osodwyd iddynt.

Tyfodd agosatrwydd y sgwad dros gyfnod o ddwy flynedd, a 'doedd dim "lefel" i neb. Cafodd pawb eu trin yr un fath gan Coleman, personoliaeth arbennig iawn, fel ffrind ac fel bos. Fel canlyniad ni chafwyd anfodlonrwydd ymysg y tîm.

https://youtu.be/Aq1ASY7Reo0









## Jon ac Onwy Gower

Sgwrs ddifyr rhwng Jon Gower a'i ferch Onwy, awdures *Llyfr Adar Mawr y Plant* – llyfr ffeithiol am 50 o adar sydd i'w gweld yng Nghymru gan gynnwys ffeithiau, ffotograffau a lluniau wedi eu comisiynu'n arbennig ar gyfer y gyfrol.

*Gellir gwylio / gwrando ar y sgwrs ar You Tube*

https://youtu.be/IXp8TBG3QK0

## Lowri Morgan

Yr athletwr wltra a chymrawd er anrhydedd Prifysgol Abertawe Lowri Morgan fu'n sgwrsio am ei chyfrol hunangofiannol newydd gyda Beti George.

*Ar gael ar wefan Tafwyl ac ar You Tube*

https://youtu.be/GUzVpzSRpIg

## Dr Dylan Foster Evans

*Cyflwynodd Prifysgol Caerdydd a Fforwm Caerdydd Ddwyieithog 'Enwau Cymraeg strydoedd Caerdydd: ddoe, heddiw ac yfory' gyda Dr Dylan Foster Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd. Bu'r sgwrs hon yn trafod cyfoeth enwau Cymraeg ein strydoedd gan fwrw golwg tua'r dyfodol.*

Cyfeiriodd at un o fapiau cynharaf y ddinas, gan John Speed, 1610, sy'n dangos Crockherbtown Street, sef Queen Street heddiw. Mae rhai o'r enwau ar y map yn parhau hyd heddiw e.e. Womanby Street, ond mae llawer wedi diflannu gyda threiglad amser.

Cynigodd yr Athro Foster Evans nifer o esiamplau yn ardal Llandaf e.e. Waungron Road sydd i'w gweld ar nifer o hen fapiau fel disgrifiad o'r waun leol. Mae eraill yn adlewyrchu enwau personol e.e. enw merch - Cisely oedd yn berchen ar fferm - sydd i'w chofio o hyd yn Pencisely Road.

Talodd Dylan deyrnged at ddogfennau hanesyddol, fel adnodd i ddeall ragor am darddiad enwau, ac yn enwedig at waith J.H.Mathews, cyfreithiwr o Loegr, wnaeth grynhoi chwe chyfrol o'r *Cardiff Records* ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bu'n crwydro'r ddinas yn holi'r Cymry Cymraeg, gan sicrhau gwybodaeth am enwau lleol. Yn ôl yr Athro bathwyd yr enw Treganna gan Mathews, ac mae yna sôn hefyd am Grwys Bychan a Chrwys Mawr. Datganodd ei siom wrth i'r ddinas benderfynu ail enwi Crockherbtown Street yn Queen Street, gan awgrymu ei fod yn tanseilio traddodiadau a hanes Caerdydd.

*Gellir gwylio / gwrando ar y ddarlith yn ei chyfanrwydd ar You Tube ac ar wefan Tafwyl*

https://youtu.be/vDi8A16HK9s

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

*Mae'r Parchedig Elfed Jones yn ddiacon yn yr Eglwys Gatholig ac yn cynorthwyo gyda'r Offeren Gymraeg yn yr Eglwys Newydd. Mae'n byw ym Mhenarth ac yn gweithio ym mhlwyf Sant Joseff Penarth a Santes Fair Dinas Powys. Dyma fyfyrdod ganddo ar y misoedd diwethaf.*

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae fy meddwl a 'nghalon wedi troi nid yn unig at ein Ceidwad Nefol ond at y rhai sydd yn ein parchu ac yn gofalu amdanom, a'n cadw yn ddiogel rhag pob drwg ar y ddaear hon. Rwyf wedi deall yn gliriach nag erioed y cydbwysedd sydd rhwng ein bywyd corfforol a'n natur ysbrydol.

Yn ymarferol, rwyf wedi bod yn llai prysur. Does dim bedydd i weini, does dim priodas i longyfarch y pâr priod, ond o anghenraid a thristwch, mae angladdau i'w cynnal.

Bob dydd Sul, rwyf wedi mynd i'r eglwys. Yno, rwyf yn gweddïo'n daer ar fy mhen fy hunan dros ein cymdeithas leol a'r sawl sydd wedi dygymod â'r firws. Mae'r eglwys yn hollol dawel am mai dim ond fi sydd yno. Rwyf yn gwybod bod yr Arglwydd yn bresennol, ac am yr awr dwi yno, teimlaf ei bresenoldeb. Mae ei bresenoldeb Ef a'm gweddi i'n gwneud i fi ddeall poen pobl eraill yn llawer gwell - pobl ifanc, pobl sy'n byw ar eu pen eu hun, pobl sy'n gofalu am eraill, ac weithiau'n ofni am eu bywydau nhw eu hunain.

Mae'r ffôn a'r e-bost wedi bod yn brysur, a ninnau'n ceisio cynnig cysur a gobaith: i ferch ifanc a oedd rai misoedd yn ôl yn bygwth hunanladdiad, i bobl sy ddim yn ymdopi â'u bywyd; i bobl sydd wedi colli eu gwaith a ddim yn gweld gobaith i'r dyfodol; i fam a thad sy'n digalonni'n llwyr am nad oes ganddynt ddigon o arian i roi bwyd maethlon ar y bwrdd i'w plant.

Mae'n siŵr fy mod wedi adrodd Gweddi'r Arglwydd cannoedd, os nad miloedd, o weithiau erbyn hyn. Ond yn nhawelwch yr eglwys ac ym mhresenoldeb Crist, mae wedi bod yn gysur ac yn egni o'r newydd i fi. Hefyd, mae'r adnod gyntaf a ddysgais gan fy nhad pan oeddwn yn grwt bach iawn, 'Duw cariad yw', wedi bod yn ysbrydoliaeth gref yn y cyfnod digalon hwn. Rwyf wedi ychwanegu gweddi fach arall wrth ailadrodd yr adnod honno: 'O Arglwydd, gwna fy nghalon yn agored i'th gariad di, a gwna i fy nwylo rannu dy gariad yn haelionus i bawb rwyf yn cwrdd â nhw.'

Gyda phob bendith, arhoswch yn ddiogel.

*Gwelir Offeren y Sul ar Zoom tra bod yr eglwysi ar gau.*

*cyswllt: carys@caerdelyn.com*

## EBENESER

**Cyfarfodydd**

Pob dydd Sul y mae oedfa o fawl Ebeneser yn cael ei darlledu ar Youtube am 10.00 ac Ysgol Zul ar Zoom am 3.00. Ceir manylion ar ein tudalen Facebook. Y mae croeso i unrhyw un i ymuno gyda ni yn y gweithgareddau hyn.

**Gwennol o'r Gorffennol**

Anfonwyd y llun isod gan Lisa Rosser i'r Llusern Fach o'r bobl ifanc y tu allan i CEN un bore Sul flynyddoedd yn ôl.

**Newyddion**

Mae Seren Ann Jones yn parhau i gryfhau yn raddol yn dilyn ei llawdriniaeth.

Mae Keri Evans, Penylan, yn ôl gartref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Felindre yn derbyn triniaeth. Dymunwn adferiad buan iddo.

Bu Beti Pierce ar ymweliad â'r Ysbyty oherwydd gwendid. Mae nawr yn cryfhau gartref.

Mae Megan Williams yn cryfhau nawr ar ôl cyfnod o salwch.

**Cartrefi Gofal**

Cofiwn yn dyner iawn at Rosaline Bowen a Bethan Roberts. Cofiwn am ein cleifion a'n cyd-aelodau yn gyson yn ein gweddïau.

**Penblwyddi**

Pen-blwydd hapus iawn i'r canlynol yn ystod Mis Gorffennaf, Gruffydd Jones, Cian Rosser, Mali, Macsen a Loti Ellis.

**Cystadleuaeth Arddio**

Mae nifer o'r aelodau wedi bod yn anfon lluniau o'u gerddi neu flodau i mewn i'r gystadleuaeth, ond mae cyfle eto oherwydd heno nos Sul 28/06 am hanner nos y bydd y gystadleuaeth yn cau. Rhoddir y lluniau i feirniaid profiadol a byd-enwog a byddant hwy yn dewis y 3 llun gorau. (Nid yw'r gweinidog yn feirniad!!). Bwriad y gystadleuaeth yw codi arian tuag at ein helusen fel Eglwys sef Uned Arennau Ysbyty Plant Cymru. Gofynnir i'r cystadleuwyr roi cyfraniad tuag at yr elusen er mwyn cymryd rhan drwy eu hanfon i'r trysorydd.

**Llusern Fach**

Pob wythnos y mae cylchgrawn Ebeneser yn cael ei gyhoeddi yn llawn gwybodaeth ddifyr. Os yr hoffech dderbyn copi cysylltwch gydag Alun Tudur ar 07814 536208.



## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Oedfaon y Sul**

Mae'n hoedfaon bore Sul yn dal i'w gweld ar YouTube www.cwmpawd.org a chawn gyfle trwy gyfrwng Zoom i gymdeithasu (dros baned rithiol!) ar ôl yr oedfa. Yn ystod yr wythnosau diwethaf cawsom ddau bregethwr gwadd. Y cyntaf oedd Aled Lewis, cyn aelod a ffrind annwyl i'r eglwys. Testun Aled oedd un o adnodau mwyaf cyfarwydd y Beibl sef Ioan 3:16 "Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol." Yr un bore soniodd Wyn James am emyn gwych Gwilym Hiraethog "Dyma gariad fel y moroedd" sy'n cynnwys y geiriau,

"T'wysog bywyd pur yn marw,
Marw i brynu'n bywyd ni"

Fel y dywedodd Wyn, y mynegiant eithaf o gariad Duw yw marwolaeth Crist ar y groes.

**Astudiaeth**

Am 5 o'r gloch pnawn Sul cynhelir astudiaeth ac amser o weddi. Ers sawl wythnos bellach 'rydym wedi bod yn meddwl am thema Gweddi gan edrych ar rai o weddïau Paul yn yr epistolau. Roedd yn ein taro fel 'roedd Paul yn diolch am ei gyd saint er gwaetha'u gwendidau. Neges bwysig i ni i gyd!

**Brecwast Merched**

Zoom, yn hytrach na'r capel yw man cyfarfod ein Brecwast Merched yn ystod y cyfnod clo. 'Rydym yn cyfarfod unwaith y mis ar fore Sadwrn ac ers misoedd lawer 'rydym wedi bod yn astudio llyfr Andrew Wilson *Incomparable* sy'n trafod cymeriad rhyfeddol Duw.

Y tro diwethaf dechreuon ni edrych ar lyfryn John Piper *Coronavirus and Christ* lle mae'r awdur yn sôn mor bwysig yw hi ein bod yn ymwybodol bod craig gadarn Efengyl Iesu Grist o dan ein traed ymhob sefyllfa. Fe welwn eisiau'r *croissants* a'r *bacon butties* ond braf yw mwynhau cymdeithas â'n gilydd.

## TABERNACL, YR AIS

**Cleifion**

Bu Carol Bundock yn Ysbyty'r Waun am fisoedd, ond bellach mae allan ac yn derbyn gofal ar aelwyd ei merch Nerys. Mae wedi cael gwellhad rhyfeddol, ac yn diolch i'r staff meddygol yn yr Ysbyty am eu gofal.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Catrin Dafydd a'i chymar Dyfed ar enedigaeth Gwenno Dyfed.

**Gwerthfawrogiad o Flaenycwm**

Roedd Geraint Davies, ysgrifennydd Blaenycwm yn y Rhondda, am ddiolch ar ran ei gyd-aelodau i aelodau'r Tabernacl am eu haelioni wrth anfon rhoddion i gynorthwyo eu Banc Bwyd. Roedd cymaint o alw am help yn y fro fel bod adnoddau'r eglwys yn methu ag ymdopi.

**Cymdeithas Pnawn Iau**

Daeth tymor y gymdeithas i ben braidd yn ddisymwth oherwydd amgylchiadau amlwg. Bu'n dymor llwyddiannus gyda rhaglen amrywiol a rhywbeth at ddant pawb. Diolch i nifer o'r chwiorydd fu'n brysur yn gwau cywion Pasg. Llwyddwyd i godi £110 o werthiant yr wyau a'r cywion a bydd yr elw i gyd yn mynd i Ysbyty Felindre.

**Oedfaon byw ac oedfaon digidol**

Dros gyfnod y Covid 19, darparwyd oedfaon sain i'w rhannu ar nos Iau, ac oedfaon fideo a fydd yn cael eu rhyddhau ar y Sul. Bydd un oedfa fyw yn cael ei chyflwyno ar un pen o'r Sul, gyda'r oedfa fideo ar y pen arall. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yma ac yn arbennig i Rhys, Dafydd, Noa ac Emyr am rannu eu sgiliau i olygu'r deunyddiau a gafwyd. Cariodd Rhys a Marc faich sylweddol wrth gynnal oedfa o'r capel ddwywaith y Sul am y saith wythnos gyntaf, ac maent yn parhau i wneud hynny unwaith y Sul nawr. Bu Euros, Llinos a Dafydd yn cadw cwmni iddynt drwy gyfeilio ar yr organ.

## EGLWYS Y CRWYS

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Alun Jones, lai na blwyddyn ers colli ei briod Lydia. Mae ein cydymdeimlad yn fawr gyda'i blant, Elspeth yng Nghaersallog, a Gareth yn Awstralia. Meddyliwn amdanynt yn eu colled.

Cafwyd prynhawn hyfryd yn y Te Mefus rhithiol, o dan nawdd y Gymdeithas. Darparwyd Cwis gan y Dr Diana Evans; dangoswyd gwaith celf a choginio plant, ieuenctid a rhieni'r Ysgol Sul; cacennau hyfryd gan yr aelodau; cerddoriaeth gan Megan a Mathew Bill. Dangoswyd lluniau o erddi gwahanol aelodau a chafwyd mynd ar daith o amgylch gerddi Bryan a Val James, William a Nesta Tiplady, Gareth a Gwen Edwards ac Arthur a Diana Evans. Aeth Siân Evans a ni ar daith o amgylch ei rhandir a chafwyd taith ar y trên bach yng ngardd William a Cerian Angharad. Diolch i bawb a fu ynglŷn â'r trefniadau.

Cynhaliwyd gwasanaethau rhithiol yn ystod mis Mehefin gydag ymateb arbennig o dda. Diolch i'r Parchedigion Lona Roberts, Robert Owen Griffiths a Glyn Tudwal Jones am eu harweiniad, ac i'r holl aelodau a gymerodd ran. Diolch i Peredur Owen Griffith am y trefniadau. Mae trefniadau ar y gweill i gynnal gwasanaethau eto yn ystod mis Gorffennaf a Sul cyntaf Awst. Byddwn yn ymuno â gwasanaethau'r Eglwysi Cymraeg eraill yn y ddinas weddill mis Awst.

Ers dechrau'r cyfnod gofidus hwn, mae'r aelodau wedi derbyn misolyn yr Eglwys, *Y Gadwyn* trwy e-bost. Mae ein dyled yn fawr i Bryan James, y Golygydd am ei waith; i John a Mali Rowlands am eu gwaith anhygoel yn casglu'r cyfeiriadau, ac i Thomas Williams am ei anfon at yr aelodau. Gwerthfawrogir ei dderbyn yn fawr iawn.

Mae'r Ysgol Sul a'r Te ar Gamera yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda'r plant a'r aelodau yn mwynhau cael gweld ei gilydd a sgwrsio.

Dymunwn yn dda i'n holl aelodau ac edrychwn ymlaen at gael gweld ein gilydd cyn bo hir gobeithio. Tan hynny, cadwch yn saff.

## OEDFAON AR-LEIN

Yn ystod y cyfnod argyfyngus hwn, cofiwch fod nifer o'r eglwysi yn rhoi myfyrdodau, gweddïau a gwasanaethau ar -lein. Am fwy o fanylion ewch i'w gwefannau:

www.facebook.com/ebeneser.caerdydd
www.minnystreet.org
www.eglwysdewisant.org.uk
www.eglwys-y-crwys.org.uk
www.tabernacl.cymru
bethlehem.cymru
www.Cwmpawd.org
capelsalem.org

Yn o gystal ceir oedfa Gymraeg ar S4C am 11.00 ar fore Sul.

## EGLWYS DEWI SANT

**Addoli ar yr Aelwyd**

Mae'r podlediadau bob Sul o'r gwasanaethau boreol a hwyrol wedi hen sefydlu eu hunain fel rhan o fywyd Eglwys Dewi Sant yn ystod yr argyfwng presennol. Mae Dyfrig, Ieuan a Megan wedi sicrhau bod gwasanaeth cyflawn yr Hwyrol Weddi yn cael ei gynnal ar gân.

**Cyngor Plwyf Eglwysig**

Llwyddodd y CPE i gynnal cyfarfod ar 8fed Mehefin drwy gyfrwng Zoom. Roedd yn gyfle i aelodau weld y Ficer a'i gilydd am y tro cyntaf ers wythnosau! Yn naturiol yr oedd rheoliadau Llywodraeth Cymru a Mainc yr Esgobion parthed y trefniadau pan ganiateir ail-agor eglwysi dan ystyriaeth.

**Elusen Tai Bach**

Gwerthfawrogir y cyfraniadau hael i'r elusen *Toilet Twinning* a fu'n gyfrwng i godi tŷ bach i gymuned yn Kindu, Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo a bloc o dai bach mewn ysgol yn Katowo, Malawi.

**Cloch Dewi**

Mae rhifyn nesaf *Cloch Dewi* ar fin ymddangos. Rhifyn ar lein fydd hon, ond darperir copi caled o'r cylchgrawn i'r sawl sydd heb fedru ei dderbyn ar lein. Diolch i Wyn Mears am ei waith fel golygydd.

**Coffi a Chlonc**

Diolch i Siân Eleri Thomas am drefnu ac arwain y bore Coffi a Chlonc ar Zoom ddydd Sadwrn 20fed Mehefin. Da oedd gweld cynifer wedi ymuno am sgwrs.

**Organ EDS**

Mae organ yr eglwys wedi ennill tystysgrif organ hanesyddol Gradd II*, ac yn derbyn cymeradwyaeth cyngor y British Institute of Organ Studies. Dyfernir Gradd II* i '...*particularly important organs of more than special interest'*. Mae'r BIOS yn annog ac yn hyrwyddo astudiaeth o'r organ, ei hanes ei gwneuthuriad a'i cherddoriaeth. Dyma'r corff sy'n rhestru organau hanesyddol ac sydd hefyd yn berchen y *National Pipe Organ Register*

Mae hyn oll yn cadarnhau arwyddocâd hanesyddol organ Eglwys Dewi Sant, yn codi ei phroffil ac yn mynd gam ymhellach tuag at sicrhau dyfodol diogel a llewyrchus iddi. Bydd ar y rhestr o organau hanesyddol sydd ar gael i bawb sy'n ymddiddori yn y maes hwn. Edrychwn ymlaen at groesawu organyddion a gwrandawyr brwdfrydig sy'n ymhyfrydu mewn offerynnau nodedig a hanesyddol.



## BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein cyfarchion cynnes at Harry ein haelod hynaf, sy'n ymdopi'n rhyfeddol o dda gyda'r bywyd gwirion sy o'n cwmpas ni oll.

Hyfryd oedd clywed newyddion Rhian ac Euros Evans, sef, genedigaeth Aneurin Hedd, brawd i Tomi.

Llongyfarchion cynnes iawn i Llinos ar ei llwyddiant yn ennill Gwobr James Martin Oncken yng Ngholeg Cerdd Brenhinol y Gogledd (RNCM). Daeth hyn ar ddiwedd ei hail flwyddyn yn astudio yn y coleg ar gyfer ei llais mezzo-soprano.

Croesawn Betsan yn ôl o Tokyo, Siapan lle aeth ar ddechrau'r flwyddyn i gyflawni gwaith ymchwilydd yn y Ganolfan Gancr Genedlaethol – 'profiad bythgofiadwy' a hynny mewn 'dinas hollol unigryw'. Yn anffodus, o ganlyniad i bandemig COVID-19 bu rhaid i Betsan ddychwelyd yn gynnar, ond gyda'r gobaith o ddychwelyd rhywddydd.

Cawsom ychydig o hanes diweddar teulu Emma: yn ddiweddar dathlodd mam-gu Steve, gŵr Emma, ei phen-blwydd yn gant oed, yn amlygu ysbryd bywiog; mae Rhiannon ar fin gorffen ei chwrs uwchradd mewn epidemioleg ym Mhrifysgol Caergrawnt; mae Beca wedi cael ei derbyn i gychwyn ar gwrs Dylunio ym Mhrifysgol Leeds ym mis Hydref. Dymuniadau calonnog i'r ddwy ferch.

Rydym yn dal gyda'n cyfarfodydd ZOOM; diolch i'n gweinidog, sy'n cynnal cyfrifoldeb Gwahoddwr. Ar fore Sul cawn Oedfa Gymun, gyda phawb yn paratoi eu bara a'u gwin eu hun. Yn ddiweddar bu'r myfyrdodau yn cynnwys cyfeiriadau at gyfraniad emynau i'n haddoliad ac at neges Efengyl Mathew (Pennod 6) parthed gofal a phryder. Ar fore Llun cawn gymdeithas anffurfiol lle bydd pawb yn siarad ar draws ei gilydd nes bydd Kevin wedi cael digon o glebran ac yn pwyso'r botwm MUTE, y cyfan yn ddechrau llesol i'r wythnos.

Rydym yn ddyledus iawn i Alun am ei wasanaeth rhadlon a diflino yn ein hysbysu trwy e-bost am newyddion a gweithgareddau. Ef yw ein HWB. Diolch iddo.

## SALEM, TREGANNA

Llongyfarchiadau i gymaint o'n plant a'n pobl ifanc wrth gystadlu yn Eisteddfod T yr Urdd eleni, hyfryd oedd gweld cymaint o wynebau cyfarwydd mewn corau ac eitemau unigol yn ystod yr wythnos. Hyfryd hefyd bod cymaint wedi mwynhau Tafwyl!

**Gwasanaethau**

Rydym yn parhau â'n gwasanaethau digidol bob bore Sul ar Zoom gyda llu yn ymuno bob wythnos, o agos ac o bell.

Rydym yn ymwybodol bod nifer o'n haelodau yn poeni am anwyliaid sy'n bell i ffwrdd ac rydym yma i'ch helpu a'ch cynnal drwy'r cyfnod yma.

**Cwis Pobl Ifanc**

Cynhaliwyd cwis pobl ifanc yn ystod y mis a sawl bore coffi ar Zoom! Croeso i chi gysylltu os hoffech ymuno.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Tokyo oedd dewis leoliad y Gemau Olympaidd eleni, ond yn 2021 y bydd y cystadlu yn digwydd.

Yn Ninas Mecsico y cynhaliwyd Gemau Olympaidd 1968 (yr XIX Olympiad).

Oes yna atgofion gennych o'r gemau yma – ydi George Forman, Bob Beamon a Dick Fosbury yn canu cloch?

Ynteu ydi seremoni gwobrwyo'r ras 200 metr i ddynion yn dal yn eich cof?

Dau Americanwr croenddu yn ennill y medalau aur ac efydd, Tommie Smith a John Carlos, ac Awstraliad, Peter Norman, y fedal arian.

Yn sŵn y "Star-Spangled Banner", gwelwyd y ddau Americanwr yn plygu pen, ac yn codi eu breichiau i'r awyr, un faneg ddu yr un am eu dwylo, sanau du am eu traed, yn arwydd o'u cefnogaeth i gydraddoldeb a hawliau sifil i'r croenddu yn eu mamwlad. Cydymdeimlai'r Awstraliad a'u protest.

Gwaharddwyd y ddau Americanwr o'r Gemau Olympaidd am oes gan y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol ac fe waharddwyd Peter Norman o dimau yn cynrychioli Awstralia'n rhyngwladol.

Yn 2005 ym Mhrifysgol Talaith San Jose, fe ddadorchuddiwyd cofeb i gofio'r safiad a wnaethpwyd gan yr athletwyr yma yn 1968 – dan yr enw "Victory Salute".

Ond dim ond delwau'r ddau Americanwr a bortreadir fel rhan o'r gofeb - mae safle enillydd y fedal arian yn wag.

Nid oedd Peter Norman am gael ei gynrychioli, ond yn hytrach adael y safle'n wag fel bod pawb a ddeuai i weld y cerflun, hefyd, trwy sefyll yn y fan y safodd yntau yn 1968, yn cael y cyfle i uniaethu gyda'r ymdrech am gyfiawnder a chydraddoldeb hil - "Take a stand" yw'r gwahoddiad.

Pan fu farw Peter Norman yn 2006 'roedd Tommie Smith a John Carlos yn cludo ei arch yn ei angladd.

A "cherfluniau" a "black lives matter" yn ôl yn y newyddion - tybed beth a ddysgasom ers 1968?

# Byw yn y Bwtri

I lawer iawn o bobl mae'r syniad o godi am 5.00 y bore yn un hollol wirion, ond wedi codi a gwisgo ac wedyn yn mynd am dro? Wel mae rhywbeth yn bod efo'r dyn yma! Efallai wir ond pawb at y peth y bo fel maen nhw'n dweud, neu, yn Saesneg '*whatever rocks your boat.*' Dydw i ddim ond yn gwneud hyn yn yr haf wrth gwrs, dydy dyddiau oer a thywyll y gaeaf ddim yn apelio cymaint.

Yn y cyfnod anodd dyn ni'n byw trwyddo ar hyn o bryd dw i wedi darganfod teithiau byr sydd, yn od iawn yn mesur dwy filltir ac mae un ohonyn nhw yn dilyn ffyrdd sydd â choed ceirios ar hyd yr ochrau ac mae'r rhain yn goed sydd yn ffrwytho. Ar hyn o bryd mae'r ceirios yn dechrau bod yn barod i fwyta a phleser mawr yw cael un neu ddau ar y ffordd.

Ond mae rhan fwyaf o'r ffrwyth yn perthyn i'r sguthanod ac maen nhw'n treulio eu dyddiau yn gwarchod eu heiddo, ac yn llenwi eu boliau wrth gwrs. Allech chi ddweud bod nhw'n byw yn y bwtri. Un ysguthan i bob coeden. Braf ynte, eistedd mewn coeden trwy'r dydd a dim ond yn gorfod ymestyn pig pob hyn a hyn pan maen nhw'n teimlo fel trît. Maen nhw'n cysgu yn y coed a phan dw i'n mynd heibio maen nhw'n deffro'n sydyn o'u trwmgwsg a hedfan i ffwrdd mewn panig cyn dychwelyd pan mae'n ddiogel. Gan fod y coed tua ugain llath o'i gilydd dw i'n creu dipyn o gynnwrf ar fy siwrnai.

Nes ymlaen pan mae'r byd wedi deffro dipyn bydden nhw'n galw ar ei gilydd. Mae'n ddigon hawdd i adnabod eu cân - 'Di dw dw dwdw' drosodd a throsodd ac weithiau maen nhw'n stopio'n sydyn heb orffen a'ch gadael chi i ddisgwyl am y diweddglo sydd byth yn dŵad. Doeddwn i ddim yn or-hoff o'r gân ar un adeg ac un diwrnod heulog pan o'n i'n eistedd yn yr ardd efo fy nhad dywedais wrtho mod i'n meddwl bod hi'n hen gân ddiflas. "O, dw'n i ddim" medda fo "mae rhywbeth cysurus iawn yn y gân." Wel ers hynny dw i'n teimlo'n hollol wahanol am yr ysguthan a phob tro dw i'n clywed y gân, cyflawn neu beidio, dw i'n meddwl am Dad.

Er dim ond dwy filltir yw'r daith dw i wedi gweld cnocell y coed a oedd braidd yn swil ac yn mynnu cuddio tu ôl i fonyn onnen a nico lliwgar yn ogystal â'r holl adar arferol dw i'n gweld o gwmpas fy ngardd fach.

Ond nid fi ydy'r unig un sydd o gwmpas, byddech chi'n synnu faint o bobl eraill sydd yn neidio allan o'r gwely i groesawu'r diwrnod newydd ac mae rhyw gyfeillgarwch yn datblygu. Mae'r cerddwyr yn cyfarch ei gilydd ac mae'r seiclwyr yn cyfarch ei gilydd ond yn gyffredin dyw aelodau o'r un grŵp ddim yn cyfarch y llall. A'r rhai efo clustffonau? Dydyn nhw ddim yn sylweddoli bod neb arall o gwmpas!

*Rob Evans*

## Colli WIB

Trist yw nodi marwolaeth William James – neu WIB, fel yr oedd llawer o bobl Caerdydd yn ei nabod. Bu farw ar ôl salwch byr yn Ysbyty Llanelli ar 29 Mehefin.

Bu William ac Eileen, ei wraig, yn byw yng Nghaerdydd am gyfnod hir; yntau'n athro yn Ysgol Gynradd Windsor Clive ac Eileen yn athrawes yn Ysgol Bryntaf. Roedd WIB yn gefnogwr brwd o Glwb Rygbi Cymry Caerdydd yn 70au cynnar a bu'n Gadeirydd y Clwb am gyfnod tra oedd ei fab, Gareth, a'i frawd, Bryan, yn chwarae i'r Clwb.

Symud yn 1976 i fod yn Brifathro ar Ysgol y Bigyn yn Llanelli, a byw yn yr Hendy, lle bu'n aelod gweithgar o'r gymuned, yn gefnogwr brwd o'r Scarlets a chynrychioli'r ardal fel Cynghorydd ar ran y Blaid ar Gyngor Sir Gâr.

Ar ran y Dinesydd estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i'r plant, Rhian, Gareth a Delyth, a'u teuluoedd. Cydymdeimlwn yn ddifuant hefyd gyda brawd William James, sef Bryan James, cadeirydd *Y Dinesydd,* a'i deulu.

# Colofn Hannah



## Blode'r Border Bach

"Gydag ymyl troedffordd gul
A rannau'r ardd yn ddwy
'Roedd gan fy mam ei border bach
O flode tecâ'r plwy."

Helo,

Cyfarchion 'to mewn caethiwed!!!!

Geso i nghodi a'm magu ar otre Cwm Tawe - ym mhentre' Trebo'th. O fynd i ochor Treforys, gallwch ddringo lan y Cwm gan ddechre yn Ynysforgan. Nawr oni bai am un o drigolion y pentre' ma 'slawer dydd, falle fydde un o drysorau'n llên ni ddim i ga'l -- Llyfr Coch Hergest!! Yma, yn y canol Oesoedd, tua 1382, ym mhlasdy Hopkyn ap Tomos ap Einon y casglwyd storiâu'r Mabinogi, cerddi'r Gogynfeirdd ynghyd â meddyginiaethau Rhiwallon Feddyg o Fyddfai.

Yn y gwrthryfel yn erbyn Edward 4edd, tua 1468, collodd teulu Hopkyn eu tiroedd a'u heiddo, carcharwyd ei fab, ag aeth Y Llyfr trwy lawer llaw. Aeth i Frycheiniog, ac ychwanegwyd cerdd i'r Llyfr am y digwyddiad gan Lewis Glyn Cothi. Daeth William Salesbury ar ei draws, yna aeth nôl i Forgannwg 'to i deulu Mansliaid Margam, bu yn nwylo Edward Lhuwyd wetyn, cyn ei roi i Goleg yr Iesu Rhydychen. Yno mae e byth, yn llyfrgell y Bodleian. Llyfr Coch HERGEST! fi'n cretu taw Llyfr Coch YNYSFORGAN ddylse fe 'di ca'l ei alw!!!!

O'r pedwar llyfr Canoloesol, Llyfrau Aneurin a Thaliesyn, a Llyfr Du Caerfyrddin, hwn yw'r tryma' a'r mwya', - yn drymach na Chaneuon Ffydd!!!!! a ma hwna'n gweud rwpeth!!

Reit, dewch 'da fi i ddringo'r Cwm.

Awn lan trwy Ynysmeudwy, a ma'r byd i gyd ar yr ynys 'ma ar y foment. "Smitw" yw'r enw lleol, ac roedd Crochendy enwog yma yn y ddeunawfed ganrif, un o lawer yn ardal Bertwe, ac ma' cyfres o nofele gan Iris Gower am ardal y crochendai hyn, ac yn frith o hanes cymdeithasol.

*Crwys yn yr 1950au*



Yna, lan i Glydach ne Gletach, troi i'r whyth ar y sgwâr, a lan tsha Craig Cefn Parc, ardal enedigol y Prifardd Crwys. Un o'i gerddi enwoca' yw honno i'r Border Bach, 'dw i wedi'i llefaru hi droeon, ac yn dwli ar ddatganiad Parti'r Wenallt ohoni. Wel, ma'r Border na o hyd wedi ca'l ei ail greu, a nith a nai Crwys yn ei warchod. Ar yr wyneb mae'n gerdd sentimental iawn, ond ma na haen arall iddi, ma pennill saith yn roi cic i'r crach!

"Dyma nhw'r gwerinaidd lu
Heb un yn gwadu'i ach,
A gwelais wenyn gerddi'r plas
Ym mlodau'r border bach."

Yng nghyfnod Mamgu, o'dd siop y fferyllydd ne'r "Drygister" ys gwetws hi, tu fas i ddrws y bac yn y border, y dywetiad o'dd,

"Yn lle mynd i gownter y fferyllydd
Cerwch at gownter Duw"

yma o'dd

"Y llysiau gwyrthiol berchid
am eu lles yn fwy na'u llun".

ac eto

"Am ddagrau dŵr meddygon
Ni wyddai Cymru Fu
Ond llysiau rhag clefydau
A gedwid ymhob tŷ".

Ma defnyddio llysiau fel meddygyniaeth mor hen a dynoliaeth. Prawf o hyn yw bod tabledi clai yn yr Amgueddfa Brydeinig yn cofnodi bod llysiau wedi'u mewnforio i Fabilon tua tair mil o flynydde nôl. A geire Ahab wrth Naboth wetyn, yn yr Hen Destament, "Dyro imi dy winllan fel y bydd hi'n ardd lysiau imi, canys y mae hi'n agos i'm ty" - y border bach beiblaidd! A ma cyfeiriad at tua chant saith deg o lysiau llesol yn llawysgrife Meddygon Myddfai.

Dyma bennill pump o gerdd Crwys:-

"Dacw nhw : y lili fach
Mint a theim a mwsg,
Y safri fach a'r lafant pêr
A llwyn o focs ynghwsg."

Y LILI FACH

Lili'r Dyffryn - ma enw pert ar hwn yn Sisneg, *Ladders to Heaven* o achos trefen y blote, fel grisiau. Un o'n hoff flote i, ma'r clyche bach mor hardd, ys dŵad y gire cyfarwydd "Ni wisgwyd Solomon yn ei holl

ogoniant fel un o'r rhai hyn."

'Slwer dydd defnyddiwyd hwn at glefyd y lliced, e.e. llyfelyn, ne losg llygad, o'n nhw'n berwi'r blotyn, ei hidlo, ac yna baddo'r llicad a'r dŵr. Mae e hefyd yn *diuretic*, yn ca'l gwared ar chwydd yn y corff o achos dŵr yn cronni, yr hen enw am y clefyd 'ma o'dd dropsi. Ma na sôn hefyd am neud sugaethan ohono "powltis", a'i roi ar asgwrn cefen babis o'dd yn wan a ffili ishte lan, "falling sickness" o'n nhw'n galw hwn, ne'r llesmeirglwyf.

Pan o'n i'n fy arddege, yn y pumdegau, rhyw ddewish o betwar *scent* o'dd o fewn cyrra'dd yn pocedi ni, a rheiny i gyd ar werth yn Woolworths - *Evening in Paris, Ashes of Violets, Californian Poppy* a *Lily of the Valley*. Yr ola o'n i'n ddewish bob tro, ac yn dal i neud, ond cwmni Dior sy'n neud e nawr, a nace yn Woolworth mae e i ga'l na phrish Woolworth ed!!!!!

Reit te, dicon am nawr, mwy am bennill pump y tro nesa.

W i'n y'ch gatel chi nawr a hen ddywetiad: "A gysgo yn ddi-gwynos, ni raid iddo wrth Rhiwallon Myddfai.

"Cwynos" yw hen air am swper, mae o fudd i fynd i'r gwely ar stumog wag.

Catwch yn saff, a iechyd da tan tro nesa'.

## Mynd ar goll yn Ystrad Mynach

Do, wir, es i ar goll unwaith yn Ystrad Mynach. Eironig braidd oherwydd bûm yn weinidog yno rhai blynyddoedd yn ddiweddarach o 1984-1990. Rwy'n dal i gofio enwau rhai o'r strydoedd cyfagos i gapel Bryn Seion – Stryd Lisburn, Commercial, Central, Lewis, Bedwlwyn a Phenallta i enwi hanner dwsin.

Bore Sul cyntaf mis Medi 1977 oedd hi ac roedd gen i gyhoeddiad yn Penuel Rhymni. Doedd gen i fawr o syniad am drefi a phentrefi Cwm Rhymni yn y dyddiau hynny! Ro'n i'n bregethwr hynod o ifanc a dim ond wedi dechrau pregethu ers nos Iau, 7 Gorffennaf yn festri Tabernacl, Yr Ais. Cofiaf fod tua 70 yno - dydw i ddim wedi cael 70 mewn oedfa ers sawl degawd! Roedd gen i ddwy bregeth erbyn mis Medi sef Hebreaid 13:8 a Mathew 16:15-16, rhag ofn bod gan unrhyw un ddiddordeb yn yr adnodau hyn yn y Testament Newydd.

Fel dwedais, es ar goll yn Ystrad Mynach. Yn lle troi i'r dde ar y sgwâr a dilyn yr A469, am ryw reswm es syth ymlaen a glanio, ie, chi'n gwybod, yng Ngelligaer. Ac yno ar y sgwâr, aeth hi o ddrwg i waeth oherwydd trois i'r chwith a chyrraedd Trelewis bum munud yn ddiweddarach!

Wel, i dorri'r daith yn fyr, llwyddais i gyrraedd Penuel Rhymni erbyn 10.40, deg munud yn hwyr. Erys llinell _______ yn fy nghofnodion am gyhoeddiadau 1977. Ystyr hynny yw na wnes i ddarllen o'r Beibl wedi'r emyn cyntaf. Cerddais mewn yn ystod yr ail emyn. Rhaid fy mod wedi mynd i'r pulpud ac arwain mewn gweddi.

Dychmygaf nad oeddwn ar fy ngorau'r bore Sul hwnnw. Rhaid fy mod braidd yn flinedig oherwydd y diwrnod cynt roeddwn wedi treulio oriau lawer yn gwylio criced yng nghae enwog Thomas Lord yn Llundain. A doedd yr Arglwydd ddim gyda chricedwyr Morgannwg yn y gêm derfynol yn erbyn Middlesex yng nghystadleuaeth Cwpan Gillette. Colli o bum wiced. Morgannwg yn dechrau'n addawol ond yn methu sicrhau digon o rediadau. Rwyf o hyd yn cofio'r ergyd am chwe rhediad anferthol Mike Llewellyn pan aeth y bêl goch bron hanner ffordd lan i'r Nefoedd!

Tybed a oedd rhai ohonoch chi yno a beth gofiwch chi erbyn hyn am y diwrnod yn Llundain? Es i ar y trên gyda Wyn Lotwick o Gaerdydd Canolog i Orsaf Paddington - oedd eraill gyda ni dywedwch?

Yn sicr, dysgais i ychydig o wersi teithio y bore Sul canlynol. Rhaid gadael y tŷ mewn da bryd os nad ydych yn gwybod lle yn union mae pen y daith a sut mae cyrraedd yno erbyn amser cychwyn oedfa.

Mae'n siŵr y bu hyn yn brofiad i sawl myfyriwr diwinyddol ifanc a dibrofiad yn y colegau enwadol fel fi yng Nghaerdydd, yn Abertawe, Aberystwyth, Bangor ac ati. Dydw i ddim yn cofio'n iawn erbyn hyn pa gyfarwyddiadau ar bapur oedd gyda ni i ddod o hyd i bob Seion, Bethel, Nebo, Moreia ac ati ar draws y wlad.

Ond trwy brofiad fe ddysgais mai doeth oedd holi dau gwestiwn. Yn gyntaf beth oedd enw'r stryd. Os taw'r Stryd Fawr (High St.) oedd yr ateb yna doedd fawr o broblem fel arfer i ddarganfod y capel. Yr ail gwestiwn oedd holi beth oedd enw'r dafarn agosaf i'r capel. Fedrech chi ddim methu gyda hwn. Eithriadau oedd trigolion lleol ddim yn gwybod lleoliad y Llew Du neu'r Hollybush!

Tybiaf fod gan bob gweinidog, pregethwr ac ati ei hoff stori neu storïau am ymdrech ofer i ddod o hyd i ryw gapel ar ddydd Sul.

Gaf i orffen gyda hon. Credaf fod y manylion yn eithaf cywir o beth ddigwyddodd.

Myfyriwr yng Ngholeg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd, rhai blynyddoedd cyn fy nyddiau i yno. Bu ei dad am gyfnod yn weinidog yng Nghwm Rhymni! Roedd ganddo gyhoeddiad yn Calvary Brynmawr. Gyrrodd e yno ar fore Sul. Chwilio yn ofer am y capel, dim lwc felly gyrrodd nôl i'r Coleg.

Yna oedfa'r hwyr. Gyrru'r holl ffordd lan unwaith eto. Ac rydych chi'n gwybod beth sy'n dod nesaf… methu ffeindio'r capel am yr ail dro. Rhaid bod hynny yn o leiaf 120 milltir a phedair awr o yrru - wnaeth e ddim hyd yn oed cyhoeddi'r fendith unwaith!

Tybed a oes gyda chi stori well na hon? Mae gen i un doniol am fy nhad, y Prifathro Dafydd G Davies. Bu yntau'n fyfyriwr ym Mangor o 1941-1950. Cafodd e drafferth i ddod o hyd i gapel gwledig ar Ynys Môn! Dyna ni, am y tro…

*Gwilym Dafydd*

# Gwylio'r Geiniog

## Huw Aled Accountants



1. Mae'r cynllun absenoldeb dros dro *(furlough)* wedi cael ei ymestyn i fis Hydref, gyda chyflogwyr yn cyfrannu tuag at y taliadau *furlough* yma o fis Awst ymlaen. Yn ogystal, mae Llywodraeth Prydain wedi cadarnhau ail daliad i bobl hunangyflogedig ym mis Awst.

2. Gan fod unigolion yn gallu ennill arian o ffynonellau amrywiol yn ystod y cyfnod clo, cofiwch eich bod yn gallu ennill hyd at £1,000 o ffynonellau gwahanol yn ddi-dreth o dan reolau lwfans masnachu y Swyddfa Dreth.

3. Mae'r opsiwn i ohirio taliadau morgais wedi ei ymestyn gan fanciau am dri mis ychwanegol. Bydd llog yn parhau i gronni ar unrhyw daliadau a ohiriwch, felly os gallwch fforddio parhau i wneud y taliadau hyn, gallai fod yn synhwyrol i chi wneud hynny.

4. Cawsom alwad wrth gwsmer newydd sy'n byw yn Oman yn ddiweddar. Tra'n ysgrifennu llythyr at y Swyddfa Dreth, gwnaethom wirio os oedd cyfieithiad o enw'r wlad, sef "Sultanate of Oman". Dychmygwch y sioc o weld un cyfieithiad o "swltaniaeth o fenyw"! Mae angen gwirio canlyniadau cyfieithu ar-lein yn ofalus!

***Cwestiynau Huw ac Aled***

**C:** Yn ddiweddar, cefais fy niswyddo oherwydd Covid-19 ac rwy'n ystyried cychwyn busnes newydd. Gallwch chi helpu?

**A:** Yn gyffredinol, rydym yn cynghori pobl i ddechrau masnachu yn hunangyflogedig, oni bai bod eich diwydiant yn mynnu bod yn rhaid i chi weithredu fel cwmni cyfyngedig. Os oes gennych chi incwm cyson ar ôl ychydig fisoedd, gallwn asesu a yw'n fanteisiol i chi weithredu fel cwmni cyfyngedig.

Gallwn gofrestru eich cwmni gyda Thŷ'r Cwmnïau mewn ychydig funudau, yn ogystal â chofrestru'ch cwmni ar gyfer treth gorfforaeth gyda Chyllid a Thollau EM.

Fel rheol gyffredinol, rydym yn argymell bod eich busnes newydd yn cyd-fynd â'ch sgiliau. Gwnewch yr hyn rydych chi'n dda yn ei wneud.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ôl hen arfer dyma'r cyfnod yn y flwyddyn pan fydd swyddogion y gymdeithas yn trafod rhaglen y flwyddyn nesaf. Ac felly y bu yn ddiweddar, ond gyda newid, sef, fel sy'n gyffredin erbyn hyn, trwy gyfarfod ZOOM. Mae'n dipyn o her i ni feddwl ymlaen oherwydd byddwn yn cyfarfod yn adeiladau'r Brifysgol; hyd yma nid yw'n glir sut y bydd pethau ar y Brifysgol o fis Hydref ymlaen. Felly ein penderfyniad ar y foment yw chwilio posibiliadau ZOOM ar gyfer rhai o'n cyfarfodydd ninnau.

Da gweld bod fersiwn Saesneg llyfr Dr Rowland Wynne, aelod o'n cymdeithas, ar Evan James Williams wedi ymddangos. Heb os, roedd Williams yn athrylith cydnabyddedig yn ei ddydd (1903-1945) a'i enw da yn parhau. Teitl y gyfrol newydd yw *Evan James Williams – Atomic Physicist.* Mae ar gael mewn siopau llyfrau am £16.99. Llongyfarchiadau (eto) i Rowland.

Ar y 15fed o Orffennaf gwelir cyhoeddi llyfr nodedig arall o law Dr Gareth Ffowc Roberts, sef, *Cyfri'n Cewri – Hanes Mawrion ein Mathemateg.* Daw'r gyfrol o Wasg Prifysgol Cymru a'i phris yw £11.99. Bydd pawb sy'n gwybod am gynnyrch hynod ddifyr yr awdur yn disgwyl am y wledd sydd i ddod a gallwn sicrhau eraill y cânt brofiad a hanner o'r newydd.


Mae rhifyn Gwanwyn 2020 o *Advances Wales* (Llywodraeth Cymru) wedi ymddangos. Fel arfer mae'n lliwgar, dwyieithog a difyr, yn rhoi crynodeb o wyddoniaeth yng Nghymru. Y tro hwn, ceir gwybodaeth am ddatblygiadau fel a ganlyn: Meddygaeth (haint y llwybr wrinol); Amgylchedd (technoleg arloesol at drin dŵr); Gwyddorau Daear (gwella cywirdeb rhagolygon y tywydd byd-eang); Amaethyddiaeth (gwella effeithlonrwydd silwair); Technoleg Gwybodaeth (System newydd i ddatgelu ymosodiadau seibr); Peirianneg a Deunyddiau (addasu pren i wella gwytnwch a chynaliadwyedd).

*Neville Evans*

Atebion i'r Cwis Blodau ar dud. 20.
Tybed faint o'r enwau Cymraeg yr oeddech yn eu gwybod? Efallai eich bod chi yn gyfarfwydd ag enwau gwahanol i rai ohonynt hefyd.

1.Bysedd y cŵn
2. Eurinllys trydwll
3. Mwyar duon
4. Blodau taranau / blodau neidr
5. Tegeirian brych
6. Blodau'r ysgawen

## Rhif: 204




### Ar Draws

1. Blodyn gwyllt mewn dau faes di-ddiwedd, yn sŵn bref y fuwch a'r anifail dof (8)
5. 'Tyner yw'r lleuad ----- tros fawnog
   Trawsfynydd yn dringo' (RWP)(4)
9. Y mis i gynhaeafu (4)
10. Gwneud offeryn cerdd o gragen bengaled (5,3)
11. Nid hen ddinas ond hen arian (5)
12. Telynores wedi colli aur yn Ffrainc yn paratoi rhywbeth i'r salad (7)
13.' Gwena'r ----- ----- ----- -----,
    Er mwyn dangos Duw i ni' (cyf HEL) (4,1'1,5,2)
17. Un o'r Mabinogi sydd ddim yn neis i'n feddwl amdano o edrych n'ôl (8)
19. 'Mi glywn y gog yn tiwnio mor fwyn.
    Ar ochr bryn uchaf ar gangen o -----' (tradd) (4)
20. Tref lle mae'r eglwys yn stŵr gwyllt (7)
21. 'Mae'r gelyn yn gry' – ond cryfach yw Duw,
    ----- ----- yn hy, tŵr cadarn i'm yw' (HCW) (2,3)
22. Gwasgu'r gwirion i yfed hwn (4)
23. 'A mynnwn weini mwy'n Ei Neuadd wen
    Yn un ----- ----- pridd neu'r cawgiau pren' (DGJ) (1'1,6)

### I Lawr

2. A yw Sam, Eric ac eraill yn byw yno? (7)
3. Creadur Ifan druan ddim yn gyntaf (7)
4. Cart y crëwr ffôl yn troi'n destun cerdd (5,1,7)
6. Rheswm ffug am ddechrau enwi sawl gŵr uniaith Saesneg (5)
7. Offerynnau cerdd yn y corff (7)
8. A yw 'batman' yn hedfan fel math o iâr? (6)
13. Mae anadl awyr tyrfa Geraint yn ddigywilydd (7)
14. Arwerthiant cŵn o ran o Siam efallai (6)
15. Gwneud hwyl o fusnes arall yn dal yn ddagreuol (7)
16. Difrifoldeb dwyn diflaster mewn gwasgedd (7)
18. Gweld telynores Maldwyn ar ganol cytgan ansicr (5)

**Enillydd Croesair Rhif 202**
**Eirlys Huws, Bontgoch, Ceredigion**

**Atebion Croesair Rhif 202**

**Ar Draws:** 1. Deall 3. Dalwyd ar 8. Orig 9. Poen 10. Dai 12. Gwasanaethwyr 14. Amlhau 15. Beudai 18. Canolbwyntio 21. Ofn 22. Merch 23. Main 24. Esgyrnog 25. Cnau

**I Lawr:** 1. Deor gwae 2. Anifail 4. Anoddaf 5, Wenith melyn 6. Dodwy 7. Reis 11. Pa galon mor 13. A'i donnau 16 Datsain 17 Sbario 19 Annog 20. Bore

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Awst, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Englynion yr Ysgol Farddol

**Dryllio'r Delwau**

Ai dial yw'r fandaliaeth – ai creithiau,
    Hualau o alaeth
Oriau cur a'r erwau caeth
 A hydre'r ymerodraeth?

*Dilwyn Jones*

**Y Cloi Mawr**

Er cariad cyffyrddiadau – o'ch llysoedd
    er eich lles awn ninnau,
a'n gwerin wêl ein gorau
yn y llaw sy'n ymbellháu.

*ED*


**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# MEHEFIN —
# MIS Y BLODAU GWYLLT

**Faint o rhain a allwch eu henwi — enwau Cymraeg cofiwch!**

**Atebion td. ??**
















*Lluniau: ED*